Cwestiynau ac Atebion - Parc Gwledig Pen-bre

Cwestiynau Cyffredinol am Ben-bre

A yw Parc Gwledig Pen-bre ar agor?

Ydy, mae'r parc ar agor a gallwch weld yr amseroedd agor ar y wefan neu ar gyfryngau cymdeithasol. Rhaid archebu'r holl weithgareddau ymlaen llaw. Cofiwch na chewch ymweld â Phen-bre os ydych yn byw mewn ardal dan gyfyngiadau symud.

A yw Yr Orsaf ar agor ar gyfer bwyd?

Ydy, mae ar agor a gallwch weld yr amseroedd agor ar y wefan. Gellir archebu byrddau y tu mewn ymlaen llaw. Gellir archebu bwrdd dim ond ar gyfer hyd at 6 o bobl o'r un aelwyd estynedig o ardaloedd nad ydynt dan gyfyngiadau symud.

A yw'r Ganolfan Sgïo a Gweithgareddau ar agor?

Ydy, ond mae'n rhaid archebu'r holl weithgareddau ymlaen llaw. Mae matiau newydd yn cael eu gosod ar y llethr sgïo ar hyn o bryd felly ni fydd y llethr yn ailagor tan 5 Hydref. Rhaid archebu'r holl wersi a gweithgareddau sgïo ymlaen llaw.

A oes trefniadau ar waith ar gyfer monitro ac olrhain ym Mhen-bre?

Oes. Mae bwyty Yr Orsaf, y maes gwersylla a'r Ganolfan Sgïo a Gweithgareddau yn dilyn canllawiau monitro ac olrhain.

A fydd yn rhaid i mi wisgo gorchudd wyneb os byddaf yn ymweld â Phen-bre?

Mae gorchuddion wyneb yn orfodol ym mhob man cyhoeddus dan do, ond gall pobl eu tynnu pan fyddant yn eistedd i fwyta ac yfed yn Yr Orsaf.

Mae gennyf docyn tymor ac rwy'n byw mewn ardal dan gyfyngiadau symud. A fyddaf yn cael ad-daliad?

Byddwn yn ymestyn hawlenni pawb sydd mewn ardal dan gyfyngiadau symud na allant ddefnyddio'r parc, a hynny am yr un cyfnod â'r cyfnod cyfyngiadau symud. I ychwanegu'r amser estynedig, bydd angen i chi gysylltu â'r swyddfa ar ôl i'r cyfyngiadau symud gael eu codi ac rydym yn gwybod faint o amser i'w ychwanegu at eich hawlen.

A oes toiledau ar agor yn y parc?

Oes, mae cyfleusterau toiled yn y parc.

Sut ydw i'n talu am barcio?

Mae sawl ffordd y gallwch dalu - gallwch brynu hawlen flynyddol, neu docyn un neu saith diwrnod drwy ymweld â'n gwefan cyn eich ymweliad, neu gallwch ddefnyddio peiriant talu unrhyw bryd yn ystod eich ymweliad. Mae'n system sy'n adnabod rhifau cofrestru cerbydau ac ni fyddwch yn gallu gadael heb dalu.

Gwersylla a Charafanio

A yw'r maes gwersylla ar agor?

Ydy, mae'r maes gwersylla ar agor ac mae'n derbyn archebion gan unrhyw un mewn ardal nad yw dan gyfyngiadau symud, ond nid yw ein cawodydd ar agor ac ni fyddant ar agor am weddill y tymor.

Rwyf mewn ardal dan gyfyngiadau symud ac mae gennyf archeb, beth ddylwn i ei wneud?

Mae'r swyddfa'n mynd drwy bob archeb ar hyn o bryd gan na fyddwch yn gallu ymweld, ond mae croeso i chi gysylltu â ni drwy anfon e-bost at CampPembrey@sirgar.gov.uk a gallwn roi cyngor ar sut i gael ad-daliad. Fel arfer, mae'n cymryd rhwng 7 a 10 diwrnod gwaith i gael ad-daliad.

Rwy'n wersyllwr tymhorol ac rwyf mewn ardal dan gyfyngiadau symud, beth ddylwn i ei wneud?

Edrychwch ar eich negeseuon e-bost gan ein bod wedi anfon e-bost at bawb i roi'r wybodaeth ddiweddaraf. Os nad ydych wedi derbyn e-bost cysylltwch â'r swyddfa cyn gynted â phosibl.

Mae gennyf ymholiad ynghylch y maes gwersylla, sut allaf gael ateb?

Cysylltwch â ni drwy ffonio'r swyddfa ar 01554 742435 neu anfon e-bost at CampPembrey@sirgar.gov.uk

Hoffwn wneud cais am lain dymhorol ar gyfer 2021, sut ydw i'n gwneud hyn?

Anfonwch e-bost at CampPembrey@sirgar.gov.uk gan nodi a hoffech gael llain â thrydan, llain heb drydan neu lain â gwasanaethau llawn a byddwn yn cysylltu â chi.